Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Asesiad Ariannol ar gyfer Cyfryngu Teuluol

Cyfeirnod /cod achos y darparwr: ________________________________

Rhaid llenwi'r ffurflen hon mewn inc.

## Manylion yr Ymgeisydd

Cyfenw Mr/Mrs/Miss/Ms: ______________________ Enw(au) cyntaf: ______________________

Cyfenw gwreiddiol os yw'n wahanol: __________________________ Dyddiad geni: ___/___/___

Cyfeiriad: ____________________________________________________________

__________________________ Cod post: ____________________

Rhif Yswiriant Gwladol: | | | | | | | | | |

Swydd: ______________________________________________________

## Cymhwyster Ariannol

1. Mae'r cleient yn blentyn o dan 18 oed:

   ☐ Ydy Ewch i gwestiwn 2

   ☐ Nac ydy Ewch yn syth i gwestiwn 5 i barhau gyda'r asesiad

2. Mae modd y plentyn i'w agregu ag oedolyn sy'n ei gynnal.

   ☐ Ydy Ewch yn syth i gwestiwn 5 i barhau gyda'r asesiad

   ☐ Nac ydy Ewch i gwestiwn 3

3. Ydy'r plentyn yma yn derbyn unrhyw arian ar sail reolaidd? Peidiwch â chynnwys unrhyw enillion rhan amser (llai na 16 awr yr wythnos), swyddi gwyliau neu unrhyw gynhaliaeth a gewch ar gyfer y plentyn.

   ☐ Ydy Ewch i gwestiwn 3

   ☐ Nac ydy Ewch i gwestiwn 3

4. A oes gan y plentyn unrhyw gynilion, eitemau o werth neu fuddsoddiadau gwerth cyfanswm o £2500 neu fwy?

   ☐ Oes Ewch yn syth i gwestiwn 5 i barhau gyda'r asesiad

   ☐ Nac oes Ewch i nodyn 1 yn isod

**Nodyn 1**

**Gan eich bod wedi ateb NAC OES i gwestiynau 2, 3 a 4, gan gadarnhau nad yw'r plentyn i'w agregu ag oedolyn sy'n cynnal ac nad oes gan y plentyn incwm neu gyfalaf rheolaidd o fwy na £2,500, nid oes angen asesiad pellach. Ewch yn syth i ddatganiad y cleient ar dudalen 13.**


© Hawlfraint y Goron

## Cymhwyster Ariannol parhad

5. Mae gan y cleient bartner a chaiff modd y ddau eu cronni:

   - ☐ Ie  Rhowch fanylion am fodd y cleient a'i bartner ill dau.
   - ☐ Na  Rhowch fanylion am fodd y cleient yn unig.

6. Mae'r achos yn ymwneud â pherchnogaeth neu eiddo asedau a/neu ddarpariaeth ariannol:

   - ☐ Ie  Ewch i gwestiwn 7.
   - ☐ Na  Ewch yn syth i Ran B Cyfalaf.

7. Mae'r gwrthwynebydd wedi hawlio asedau'r cleient (sydd yn ei enw ef ei hun neu ar y cyd):

   - ☐ Ydy  Llenwch Ran A Cyfalaf - Mater sy'n destun anghydfod.
   - ☐ Nac ydy  Ewch yn syth i Ran B Cyfalaf.

Mae'r anwybyddiad o fater sy'n destun anghydfod ddim ond yn berthnasol i asedau sy'n cael eu hawlio'n benodol gan y gwrthwynebydd.  Yn Rhan B Cyfalaf, rhaid cynnwys yr holl asedau nad yw'r gwrthwynebydd yn eu hawlio'n benodol.

# Rhan A: Cyfalaf - Mater sy'n destun anghydfod

4 Rhestrwch unrhyw adeiladau, asedau neu eiddo y mae'r gwrthwynebydd wedi eu hawlio yn yr achos hwn:

| | Prif gartref | Eiddo arall |
|---|---|---|
| 1. Eiddo: | | |
| Gwerth presennol ar y farchnad | £________ | ________ |
| Faint o fenthyciad wedi ei warantu/morgais sy'n weddill | £________ | ________ |
| 2. A yw'r eiddo yn enw'r cleient a'r gwrthwynebydd ar y cyd?<br>4 Os yw'r eiddo yn enw'r cleient a'r gwrthwynebydd ar y cyd, fel arfer tybir bod ganddynt gyfran gyfartal at ddibenion asesu. | ☐ Ydy<br>☐ Nac ydy | ☐ Ydy<br>☐ Nac ydy |
| 3. Beth yw cyfran y cleient o'r eiddo at ddibenion asesu?<br>4 Rhowch 50% os yw'r cleient a'r gwrthwynebydd yn berchen ar yr eiddo ar y cyd. Dewiswch 100% os yw'r cleient yn berchen ar yr eiddo ei hun neu'n berchen ar yr eiddo ar y cyd â'i bartner. Rhowch y % briodol os oes gan barti arall gyfran. | ________% | ________% |
| 4. Cyfanswm Ecwiti Net (h.y. gwerth presennol ar y farchnad, llai yr anwybyddiad morgais):<br>4 Didynnwch gyfanswm llawn unrhyw ddyled sydd wedi sicrhau gan forgais neu godiad ar yr eiddo. | £________ | ________ |
| 5. Cyfran y Cleient o'r Cyfanswm Ecwiti Net:<br>4 Lluoswch yr ateb i gwestiwn 4 gyda'r ateb i gwestiwn 3 | £________ | ________ |
| 6. Swm ecwiti terfynol y Cleient a aseswyd:<br>4 Cyfrifwyd hyn drwy ddefnyddio'r anwybyddiad o fater sy'n destun anghydfod; yna'r anwybyddiad ecwiti o £100,000 i'r prif gartref.<br>4 Swm uchaf yr anwybyddiad o fater sy'n destun anghydfod yw £100,000.<br>4 Rhaid defnyddio'r anwybyddiad o fater sy'n destun anghydfod ar gyfer y prif gartref yn gyntaf (h.y. wedi'i dynnu o gyfran y cleient o'r cyfanswm ecwiti net sy'n ymddangos yn yr ateb i gwestiwn 5); dylai unrhyw beth sy'n weddill (h.y. dim ond os yw cyfran y cleient o'r cyfanswm ecwiti net yn y prif eiddo yn llai na £100,000) gael ei neilltuo i'r eiddo arall.<br>4 **Rhaid i chi beidio â newid trefn yr anwybyddiadau** | £________ | ________ |

## Rhan A: Cyfalaf - Mater sy'n destun anghydfod parhad

7. Asedau ac eiddo arall sy'n cael eu hawlio gan y gwrthwynebydd: **Cleient a Phartner**

| | Cleient a Phartner |
|---|---|
| Cynilion (banc, cymdeithas adeiladu, ayyb) | £ ____________ |
| Buddsoddiadau (yn cynnwys cyfranddaliadau a pholisïau yswiriant) | £ ____________ |
| Eitemau gwerthfawr (ee cwch, carafán, gemwaith, ayyb) | £ ____________ |
| Cyfalaf arall (yn cynnwys arian sy'n ddyledus i'r cleient) | £ ____________ |
| **Cyfanswm cyfalaf Rhan A** | £ ____________ |

4 Hwn yw'r cyfanswm cyfalaf ar ôl cyfrifo'r anwybyddiad o fater sy'n destun anghydfod o £100,000 ar gyfer yr asedau yn yr adran hon.

4 Os nad oes asedau eiddo yn faterion sy'n destun anghydfod, cyfrifwch y £100,000 cyflawn o'r anwybyddiad o fater sy'n destun anghydfod ar gyfer yr asedau a nodir yng nghwestiwn 7 uchod.

## Rhan B: Cyfalaf

4 Rhestrwch holl adeiladau, asedau neu eiddo'r cleient a'r partner sydd heb eu cynnwys yn Rhan A.

4 Nid yw cyfalaf yn cynnwys dodrefn a mân bethau (oni bai eu bod yn werthfawr iawn), dillad nac offer gwaith.

| | Prif gartref | Eiddo arall |
|---|---|---|
| 1. Eiddo: | | |
| Gwerth presennol ar y farchnad | £ ____________ | ____________ |
| Faint o fenthyciad wedi ei warantu/morgais sy'n weddill | £ ____________ | ____________ |
| 2. A yw'r eiddo yn enw'r cleient a'r gwrthwynebydd ar y cyd?<br>4 Os yw'r eiddo yn enw'r cleient a'r gwrthwynebydd ar y cyd, fel arfer tybir bod ganddynt gyfran gyfartal at ddibenion asesu. | ☐ Ydy<br>☐ Nac ydy | ☐ Ydy<br>☐ Nac ydy |
| 3. Beth yw cyfran y cleient o'r eiddo at ddibenion asesu?<br>4 Rhowch 50% os yw'r cleient a'r gwrthwynebydd yn berchen ar yr eiddo ar y cyd. Dewiswch 100% os yw'r cleient yn berchen ar yr eiddo ei hun neu'n berchen ar yr eiddo ar y cyd â'i bartner. Rhowch y % briodol os oes gan barti arall gyfran. | ____________% | ____________% |
| 4. Cyfanswm Ecwiti Net (h.y. gwerth presennol ar y farchnad, llai yr anwybyddiad morgais):<br>4 Didynnwch gyfanswm llawn unrhyw ddyled sydd wedi sicrhau gan forgais neu godiad ar yr eiddo. | £ ____________ | ____________ |
| 5. Cyfran y Cleient o'r Cyfanswm Ecwiti Net:<br>4 Lluoswch yr ateb i gwestiwn 4 gyda'r ateb i gwestiwn 3 | £ ____________ | ____________ |
| 6. Swm ecwiti terfynol y Cleient a aseswyd:<br>4 Ar ôl cyfrifo'r anwybyddiad ecwiti o £100,000 i gyfran y cleient o'i gyfanswm ecwiti net yn y prif gartref (fel mae'n ymddangos yn yr ateb i gwestiwn 5) | £ ____________ | ____________ |

## Rhan B: Cyfalaf parhad

7. Asedau ac eiddo arall:

| | Cleient | Partner |
|---|---|---|
| Cynilion (banc, cymdeithas adeiladu, ayyb) | £____________ | £____________ |
| Buddsoddiadau (yn cynnwys cyfranddaliadau a pholisïau yswiriant) | £____________ | £____________ |
| Eitemau gwerthfawr (ee cwch, carafán, gemwaith, ayyb) | £____________ | £____________ |
| Cyfalaf arall (yn cynnwys arian sy'n ddyledus i'r cleient) | £____________ | £____________ |
| **Cyfanswm cyfalaf Rhan B** | £____________ | |
| **Cyfanswm yr holl asedau cyfalaf (Rhan A a Rhan B)** | £____________ | |

## Rhan C: Incwm

Mae'r cleient yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, neu Gredyd Gwarant, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

☐ Ydy — Ewch yn syth i'r adran ar Dystiolaeth ar dudalen 6.

☐ Nac ydy — Parhau â manylion incwm

4 Defnyddiwch ffigurau misol
(os telir yn wythnosol, lluoswch â 52 a rhannwch â 12)
(os telir fesul pedair wythnos, lluoswch â 13 a rhannwch â 12)

| **Mae incwm yn cynnwys:** | Cleient | Partner |
|---|---|---|
| 4 Enillion misol gros | £ ____________ | £ ____________ |
| 4 Incwm arall (yn cynnwys budd-dal plant, pensiynau, taliadau cynnal, difidendau, credydau treth, budd-daliadau mewn ffyrdd eraill, ayyb) | £ ____________ | £ ____________ |
| **Cyfanswm incwm gros** | £ ____________ | £ ____________ |
| **Cyfanswm incwm gros (Cleient a Phartner)** | £____________ | |
| **Llai lwfansau misol:** | | |
| 4 Costau cadw ty, yn cynnwys: rhandal morgais* (wedi'i gapio os nad oes gan y cleient ddibynyddion) | £ ____________ | £ ____________ |
| Rhent* (wedi'i gapio os nad oes gan y cleient ddibynyddion) *dylai'r symiau fod yn glir o fudd-dal tai | £ ____________ | £ ____________ |
| 4 Lwfansau dibynyddion: Partner | £____________ | |
| Dibynyddion 15 oed ac iau | £____________ | |
| Dibynyddion 16 oed neu'n hyn | £____________ | |
| 4 Treth ac Yswiriant Cenedlaethol | £ ____________ | £ ____________ |
| 4 Lwfans safonol ar gyfer costau cyflogaeth | £ ____________ | £ ____________ |
| 4 Taliadau cynnal a wneir (e.e. ar gyfer plant a/neu cyn-briod/priod wedi gwahanu) | £ ____________ | £ ____________ |
| 4 Costau gofal plant oherwydd gwaith/hunangyflogaeth | £ ____________ | |
| 4 Talu gorchymyn cyfraniad incwm (cymorth cyfreithiol troseddol) | £ ____________ | £ ____________ |
| **Cyfanswm lwfansau** | £ ____________ | £ ____________ |
| **Cyfanswm incwm gwario misol** | £ ____________ | £ ____________ |
| **Cyfanswm incwm gwario misol (Cleient a Phartner)** | £ ____________ | |

## Tystiolaeth

Rhoddwyd tystiolaeth i gefnogi modd Do ☐ bydd angen i chi gwblhau'r rhestr wirio tystiolaeth ar dudalen 8. Naddo ☐

Os 'naddo', cofnodwch gyfiawnhad neu amgylchiadau arbennig.

## Datganiad Cleient

4 Hyd eithaf fy ngwybodaeth, mae'r holl wybodaeth a roddais yn gywir ac nid wyf wedi celu unrhyw wybodaeth berthnasol. Rwy'n deall y gellir fy erlyn os ydw i'n rhoi gwybodaeth ffug neu'n celu gwybodaeth berthnasol yn fwriadol.

4 Rwyf yn deall bod rhaid i mi ddweud wrthych ar unwaith pe digwydd unrhyw newid i fy amgylchiadau ariannol i neu fy mhartner.

4 Rwyf yn cytuno y gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wirio'r ffeithiau hyn ag eraill megis yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac rwyf yn caniatáu i'r bobl/sefydliadau hynny ddarparu'r wybodaeth y gofynnir iddynt amdani.

Llofnodwyd gan y cleient: ______________________ Dyddiad: ____/____/______

---

## Awdurdod gan bartner **(yn ofynnol ond yn unig os yw'r partner yn mynychu cyfryngu).**

Os oes gennych bartner y llenwyd ei fanylion/manylion ar y ffurflen hon, rhaid iddo/iddi lofnodi'r awdurdod isod.

4 Mae hwn yn ddatganiad gwir o ran fy holl incwm ac asedau yn y DU a thramor.

4 Rwy'n cytuno y gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wirio'r ffeithiau hyn gydag eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM, ac rwy'n awdurdodi'r bobl/sefydliadau hynny i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir iddynt amdani.

Llofnodwyd: ______________________ Dyddiad: ____/____/______

Enw llawn (mewn prif lythrennau): ______________________

---

## Cyfryngwr i lenwi

Ticiwch y math o gyfryngu y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef:

☐ materion plant yn unig ☐ eiddo a chyllid ☐ cyfryngu ar gyfer pob mater

Os ydych chi wedi ticio un o'r blychau, rhowch y dyddiad y cychwynnodd y cyfryngu: ____/____/______

Nodwch yr hyn y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef:

A yw'r person yn briod â'r gwrthwynebydd yn yr anghydfod, neu a ydynt erioed wedi bod yn briod â'r gwrthwynebydd yn yr anghydfod? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

---

## Mwy o Wybodaeth

Yn y gorffennol, a yw'r cleient wedi derbyn cyfryngiad ar gyfer:

☐ materion plant ☐ eiddo a chyllid ☐ Cyfryngu ar Bob Mater (AIM)

# Rhestr Wirio Tystiolaeth

E1

4 Ticiwch y blwch/blychau priodol i ddangos bod y dystiolaeth wedi'i chasglu.

4 Ar gyfer gwaith rheoledig, cyfeiriwch at y canllawiau cymhwysedd ariannol manwl.

## Incwm

**Incwm Cyflogedig (Talu Wrth Ennill):**

- ☐ Slipiau cyflog

**Incwm Hunangyflogedig:**

- ☐ Cyfriflenni Banc diweddar
- ☐ Cyfrifon ariannol cyflawn
- ☐ Ffurflen Dreth Hunanasesu
- ☐ Llyfr Arian

**Buddion mewn Nwyddau**

- ☐ Ffurflen dreth P11D (buddion mewn nwyddau)

**Incwm Arall:**

- ☐ Dogfennau Pensiwn Preifat/Galwedigaethol
- ☐ Tystiolaeth o Incwm Rhent (cyfriflen banc neu gytundeb tenantiaeth)
- ☐ Incwm o ymddiriedolaeth (cyfriflen banc neu lythyr gan yr ymddiriedolwyr)
- ☐ Llythyr gan ffrind/teulu sy'n rhoi cymorth
- ☐ Llythyr grant/benthyciad myfyriwr
- ☐ Arall: ____________________ (e.e. cyfriflenni banc)

4 Ar gyfer pensiynau ac unrhyw incwm arall sy'n ddarostyngedig i dreth incwm, rhaid i'r dystiolaeth ddangos y swm gros cyn tynnu treth.

**Budd-daliadau'r wladwriaeth (yn cynnwys budd-daliadau wedi'u hawdurdodi):**

- ☐ Cyfriflenni banc

  4 Enw a'r math o fudd-dal e.e. rhaid nodi Lwfans Ceisio Gwaith sy'n **Seiliedig ar Incwm** ar y datganiad neu bydd angen tystiolaeth ychwanegol e.e. llythyr hysbysiad.

- ☐ Llythyr hysbysiad gwreiddiol (ar gyfer budd-daliadau wedi'u hawdurdodi, cyfeiriwch at y tabl sy'n rhoi enghreifftiau o dystiolaeth dderbyniol ac annerbyniol yng nghyfrol 2 rhan E).
- ☐ Y llythyr diweddaraf sy'n rhoi gwybod am newid yn swm y budd-dal.
- ☐ Llythyr gan asiantaeth dalu (h.y. yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Byd Gwaith, y Gwasanaeth Pensiynau) yn cadarnhau bod y budd-dal wedi'i awdurdodi wedi'i dderbyn ar ddyddiad y cais.

  4 Rhaid i'r llythyrau nodi enw a'r math o fudd-dal. Os yw'r llythyrau'n dyddio'n ôl fwy na 6 mis, rhaid hefyd cyflwyno cyfriflen banc ddiweddar.

**Cymorth gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS):**

- ☐ Llythyr gan NASS neu Awdurdod Lleol sy'n datgan bod yr unigolyn yn cael cymorth.

4 Rhaid i'r llythyr fod wedi'i ddyddio lai na 6 mis yn ôl.

**Credydau Treth**

- ☐ Hysbysiad am Ddyfarniad Credyd Treth (mwyaf diweddar).
- ☐ Llythyr diweddar arall gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cadarnhau'r swm a dderbynnir.

4 Rhaid i'r llythyr fod wedi'i ddyddio lai na 6 mis yn ôl.

## Gwariant (cyfeiriwch at y canllawiau ar dystiolaeth yn seiliedig ar risg):

**Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol:**

- ☐ Slipiau cyflog (Talu wrth Ennill gweithwyr)
- ☐ Ffurflen taflen cyfrifiad treth SA302 (hunangyflogedig)

**Costau tai (os yw'r swm yn fwy nag un rhan o dair o incwm gros y cleient):**

- ☐ Llyfr Rhent/Cytundeb Tenantiaeth
- ☐ Cyfriflen morgais
- ☐ Cyfriflen banc

**Costau gofal plant sydd dros £600 y mis**

- ☐ Copi o'r cytundeb/contract
- ☐ Cyfriflen banc

**Cynhaliaeth (gweler y canllawiau)**

- ☐ Derbynebau
- ☐ Cyfriflen banc
- ☐ Copi o'r Gorchymyn Cynhaliaeth

## Cyfalaf (cyfeiriwch at y canllawiau ar dystiolaeth yn seiliedig ar risg):

- ☐ Cyfriflen banc
- ☐ Tystysgrif Cyfranddaliadau
- ☐ Llyfr talu /tystysgrif Cynilion Cenedlaethol
- ☐ Bondiau Cynilo Premiwm neu Gofnod Bond (crynodeb)
- ☐ Arall: ____________________

# ASIANTAETH CYMORTH CYFREITHIOL

# HYSBYSEB PREIFATRWYDD

## Pwrpas

Mae’r hysbyseb preifatrwydd yma yn gosod allan y safonau y gellir disgwyl gael gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol pan fydden ni’n gofyn am neu dal ar wybodaeth bersonol (‘data personol’) amdanoch; sut byddech chi yn gallu cael copi o’ch data personol; a beth allwch chi wneud os nad ydy’r safonau yn cael eu cyrraedd.

Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn asiantaeth weithredol o’r Weinidogaeth Cyfiawnder (GC). GC yw rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn dal. Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu data personol ar gyfer ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus cysylltiedig. Ein swyddogaeth gyhoeddus yw darparu cymorth cyfreithiol.

## Am dan wybodaeth bersonol

Mae data personol yn wybodaeth amdanoch chi fel unigolyn. Gall fod eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd yn eich cais am gymorth cyfreithiol megis eich amgylchiadau ariannol a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw achos cyfreithiol cyfredol neu flaenorol sydd yn eich parthed.

Rydym y gwybod pwysigrwydd diogelu preifatrwydd cwsmeriaid ag i gydymffurfio gyda deddfau diogelu data. Mi wnawn i amddiffyn eich data personol a dim ond datgelu lle bu yn gyfreithiol i wneud, neu hefo eich caniatâd.

## Mathau gwahanol o ddata personol rydym yn prosesu

Rydym ond yn prosesu data personol sydd yn berthnasol i’r gwasanaethau rydym yn darparu i chi. Bydd y data personol y byddech chi’n darparu yn eich cais am gymorth cyfreithiol ond yn cael eu defnyddio ar gyfer y pwrpasau isod.

## Pwrpas prosesu a sail gyfreithlon ar gyfer prosesu

Pwrpas pan fod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu’r data personol byddech chi yn darparu drwy lenwi’r ffurflen hon yw ar gyfer galluogi darparu cymorth cyfreithiol. Ein sail gyfreithlon yw ‘cyflawni perfformiad unrhyw dasg of fewn diddordeb y cyhoedd neu ar gyfer awdurdod swyddogol’ fel y nodir yn Erthygl 6(1) o GDPR y DU. Y tasgau yw’r rheini nodir yn Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Chosbi a dedfrydu Troseddwyr 2012.Yn benodol, byddwn ni yn defnyddio eich data personol fel a ganlyn:

- Penderfynu os ydych yn gymwys i gymorth cyfreithiol, ai byddech yn gorfod talu cyfraniad tuag at gostau cymorth cyfreithiol ac i gynorthwyo’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gasglu’r cyfraniadau, os yw’n briodol.

- Asesu hawliadau eich darparwr(wyr) cyfreithiol ar gyfer taliadau o gronfa cymorth gyfreithiol am y gwaith maent wedi ei gynnal ar eich cyfer.

- Wrth gynnal archwiliadau sicrwydd cyfnodol ar ffeiliau cymorth cyfreithiol i sicrhau bod penderfyniadau wedi’u gwneud yn gywir.

- Cynhyrchu ystadegau a gwybodaeth ar ein prosesau i alluogi ni i wella ein prosesau ac i gynorthwyo ni i ddarparu ein swyddogaethau.

Pe bai'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn methu casglu'r wybodaeth bersonol, ni fydden yn gallu arwain y gweithgareddau uchod, sydd yn golygu na fydden ni'n gallu darparu cymorth cyfreithiol i chi.

Rydym yn casglu 'categorïau arbennig o ddata personol'. Cesglir y data hwn lle bo angen at y dibenion a nodir uchod. Yr amod ar gyfer prosesu'r data hwn yw Erthygl 9(g) o GDPR y DU – Rhesymau o fudd cyhoeddus sylweddol. Mae ein hamod Atodlen 1 cysylltiedig at ddibenion Statudol a Llywodraethol. Rydym hefyd yn casglu'r data hwn at ddibenion monitro cydraddoldeb. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd categorïau arbennig o ddata personol yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn eich adnabod chi, neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â'ch cais am gymorth cyfreithiol.

Rydym yn casglu 'data personol yn ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau neu fesurau diogelwch eraill'. Cesglir y data hwn lle bo'n berthnasol at y dibenion a nodir uchod. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn Asiantaeth Weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n Awdurdod Swyddogol at ddibenion Erthygl 10 GDPR y DU.

## Gyda phwy gall y wybodaeth gael eu rhannu hefo

Weithiau, bydden ni angen rhannu'r wybodaeth bersonol rydym ni'n prosesu gyda sefydliadau eraill. Pan fydd hyn yn angenrheidiol, bydden ni'n cydymffurfio gyda holl agweddau sydd yn berthnasol i ddeddfau diogelu. Gall y sefydliadau y gallwn rannu eich gwybodaeth bersonol hefo gynnwys:

- Eich Darparwr(wyr) cymorth cyfreithiol a gyfarwyddwyd, gan gynnwys unrhyw eiriolwr a gyfarwyddir gan gyfreithiwr cymorth cyfreithiol
- Awdurdodau cyhoeddus megis: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS), Gwasanaeth Cyllid a Thollau EM (HMRC), Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Swyddfa Gartref a Chofrestrfa Tir EM;
- Awdurdodau sydd ddim yn gyhoeddus megis: Asiantaethau cyfeirio credyd fel Equifax a TransUnion ac ein partneriaid casglu dyled Marston Holdings;
- Os bydd gwybodaeth ffug neu anghywir yn cael eu darparu neu os bydd twyll wedi ei nodi, gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag asiantaethau atal twyll yn gyfreithlon i ganfod ag atal twyll gwyngalchu arian. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu data yn benodol â CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau at ddibenion atal twyll, ymchwilio ac erlyn; ag
- Lle mae dyled yn ddyledus i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data ag awdurdodau cyhoeddus fel CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid casglu dyledion fel Marston Holdings at ddibenion olrhain, casglu dyledion a gorfodi.

Gallwch gysylltu ein Swyddog Diogelu Data ar gyfer rhagor o wybodaeth ar y sefydliadau rydym yn gallu rhannu eich gwybodaeth bersonol hefo.

## Proseswyr Data

Gallwn gontract hefo proseswyr data trydydd parti i ddarparu e-bost, gweinyddiaeth system, rheolaeth dogfennau ag gwasanaethau storio TG. Bydd unrhyw ddata personol a rannwyd

hefo’r proseswyr data ar gyfer y pwrpas yma yn cael ei lywodraethu gan gymalau contract enghreifftiol o dan y ddeddf diogelu data.

Rydym yn contractio â Marston Holdings fel prosesydd data ar gyfer casglu a gorfodi cyfraniadau cymorth cyfreithiol troseddol. Mae unrhyw ddata personol a rennir gyda’r prosesydd data ar gyfer y pwrpas hwn yn cael ei lywodraethu gan gymalau contract enghreifftiol o dan gyfraith diogelu data.

## Awtomeiddio gwneud penderfyniadau

Nid ydym yn defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau awtomatig yn unig o fewn y diffiniad yn Erthygl 22(1) o GDPR y DU. Bydd y penderfyniad terfynol ar gais am gymorth cyfreithiol neu hawliad am gostau mewn achos cymorth cyfreithiol bob amser yn cael ei wneud gan bod dynol. Gallai hwn fod yn aelod o’n staff, neu’n aelod o staff Darparwr cymorth cyfreithiol sy’n gweithredu dan awdurdod dirprwyedig gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

## Manylion am drosglwyddiadau amddiffyn ag i drydedd gwlad

Mae’n bosibl y bydd data personol yn cael ei drosglwyddo i leoliadau yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) lle bo’n ofynnol gan ein proseswyr data ar gyfer lletya, storio a diogel wrth gefn o’n gwasanaethau TG. Gwneir trosglwyddiadau o’r fath ar sail penderfyniadau digonolrwydd rhwng y DU a’r AEE yn unol ag Erthygl 45 o GDPR y DU.

Mewn amgylchiadau cyfyngedig ac eithriadol, lle bo angen darparu cymorth technegol, gall staff cymorth yn UDA, Rwmania, Pilipinas, Singapôr neu Awstralia gyrchu data personol sydd wedi'i storio yn ein meddalwedd canolfan alwadau. Lle gwneir trosglwyddiadau at y diben hwn i leoliadau heb benderfyniadau digonolrwydd, gwneir y trosglwyddiad ar sail eithriadau o dan Erthygl 49 o GDPR y DU ac mae’n angenrheidiol er budd cyfreithlon y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae darparwr y meddalwedd yn cynnal yr un safonau TG a diogelwch personél ar gyfer ei wasanaethau dramor ag y mae ar gyfer gwasanaethau yn y DU.

## Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gasglwyd

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei gadw am hirach na fydd angen ar gyfer pwrpasau cyfreithlon y mae wedi'i gasglu a'i brosesu ar ei gyfer. Mae hyn i sicrhau nad yw’r wybodaeth a ddarparwyd yn dod yn anghywir, wedi ei ddyddio neu amherthnasol. Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi gosod cyfnodau cadw ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym ni’n casglu, a gall canfod ragor am hyn drwy ein gwefan:

https://www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules

Gallwch gysylltu ein Swyddog Diogelu Data ar gyfer cael copi o’n polisïau cadw ni.

Tra bydden ni’n cadw eich data personol, mi wnawn sicrhau ei fod yn cael ei gadw yn saff a’i ddiogelu rhag ei golli, camdriniaeth neu gyrchiad a datgeliad anawdurdodedig. Unwaith bydd y cyfnod cadw yn dod i ben, bydd eich data personol yn cael eu dileu a’i ddinistrio yn saff ac yn barhaol.

## Mynediad i wybodaeth bersonol

Gallwch ganfod os rydym yn dal unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch drwy wneud ‘Cais Mater Mynediad’. Os ydych eisiau gwneud y cais yma, os gwelwch yn dda, cysylltwch â:

Tîm Datgelu – Pwynt Post 10.25
Gweinidogaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Data.access@justice.gov.uk

## Pan fydden ni’n gofyn am ddata personol

Rydym yn addo i adael chi wybod pam bod angen eich data personol ag dim ond i ofyn am eich data personol rydym angen ac nid casglu gwybodaeth ormodol neu amherthnasol.

Pan fydden ni’n casglu eich data personol, rydym ni hefo cyfrifoldebau, ac rydych chi hefo hawliau. Maent yn cynnwys:

- Gallwch ymneilltuo cydsyniad bryd bynnag, lle bo yn berthnasol;
- Gallwch gyflwyno cwyn hefo’r awdurdod arolygol;
- Bydden ni’n diogelu a sicrhau nad oes gan unrhyw un anawdurdodedig mynediad i’r data;
- Bydd eich data personol yn cael eu rhannu hefo sefydliadau eraill am bwrpasau cyfreithlon yn unig;
- Ni fydden ni’n dal ar y wybodaeth am gyfnod hirach na sydd yn angen;
- Ni fydden ni’n gwneud eich data personol ar gael ar gyfer pwrpasau hysbysebu heb eich caniatâd chi; ac
- Bydden ni’n ystyried eich cais i gywiro, rhoi’r gorau i brosesu neu ddileu eich data personol.

## Gallwch gael rhagor o fanylion ar:

- Cytundebau rydym ni hefo sefydliadau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- Amgylchiadau lle bydden ni’n pasio ymlaen eich gwybodaeth bersonol heb ddweud wrthoch chi, er enghraifft, i helpu gydag atal neu ganfod trosedd neu i gynhyrchu ystadegau anhysbys;
- Ein cyfarwyddiadau i staff ar sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eich gwybodaeth bersonol;
- Sut rydym yn gwirio fod y wybodaeth a dalwyd gennym yn gywir ac yn gyfredol; ac
- Sut i wneud cwyn.

Ar gyfer ragor o wybodaeth am yr uchod, os gwelwch yn dda, cysylltwch hefo:

Y Swyddog Diogelu Data
Gweinidogaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

dataprotection@justice.gov.uk

## Cwynion

Pan fydden ni'n gofyn am wybodaeth, bydden ni'n cydymffurfio hefo'r gyfraith. Os ysych yn ystyried bod eich gwybodaeth wedi eu delio hefo yn anghywir, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar ddiogelwch data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Lôn Ddŵr
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF
Tel: 0303 123 1113
www.ico.org.uk